Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 06.02.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Pamela Jones, Danny Davies, Gethin Edwards, Eirion Evans, Dylan Jones, Derick Locke, Cynghorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau: Arwel Nicholas

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	DL – Cyfrannu tuag at Y Pwyllgor Lles	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir – GE & EE	
Materion yn Codi	Clerc yn adrodd nad oedd wedi cael atebion oddi wrth Pearce a McEvoy. IJ yn dweud I'r Cyngor Sir ddanfon llythyron allan eto I berchnogion daear y cloddiau sy'n gordyfu a, nid yw'r Sir yn gwneud y gwaith mwyach a gwneud I'r tirfeddiannwr dalu. Y gwaith ym Mronwydd ar fin dechrau. Ad-drefnu Cynghorau – Clerc yn dweud iddo ymweld gyda Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin a thrafod sut fyddai modd I Gynghorau weithio ar y cyd.	
Gohebiaeth	IJ yn cyfeirio at Ddogfen Cynllunio newydd sydd yn gofyn am I dirfeddiannwyr gynnig daear ar gyfer adeiladu; mae'n amser creu Cynllun Datblygu Lleol unwaith eto. ED o'r farn y bydd tirfeddiannwyr sydd â diddordeb yn gwneud ceisiadau beth bynnag.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Trywydd, cyfieithu, £54 – DD & ED Cyflog y Clerc, £130.60 – DJ & GE	
Elusennau	Trafodwyd cyfrannu tuag at y 4 elusen oedd wedi gofyn am gefnogaeth a phenderfynnwyd y canlynol: Llais y Llan, £400 – DD & DL Pwyllgor Lles, £500 – DJ & DD Teenage Cancer Trust, £100 – DD & ED Cancer Information and Support Services, £200 – DD & ED. (Trafodwyd costau uwch presennol Y Pwyllgor Lles, oherwydd yr angen am gyngor broffesiynol ynglyn a choed y Cae Chwarae sydd yn destun gofid oherwydd I un ohonynt gwympo yn ystod storom.)	
UFA	DL – Dim DJ – Dim ED – Dim EE – Dim IJ – Dim GE – Dim DD – awgrymu gosod erthygl fer yn Llais y Llan yn gofyn I gerddwyr I	

	wisgo dillad llachar gyda'r nos oherwydd iddi fod yn anodd I yrrwyr cerbydau eu gweld. PJ – Yn diolch I'r Cyngor am y blodau a'r cerdyn a dderbyniwyd fel arwydd o gydymdeimlad	
Cyfarfod yn gorffen 8.45		

Cafwyd yn gywir : …….. (Cadeirydd)

Dyddiad : ……..

Cafwyd yn gywir : …….. (Ysgrifennydd)

Dyddiad: ……